

CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH, 8 Tachwedd 2022 A GYNHALIWYD

YNG NGHANOLFAN TALYSARN AM 7.000'R GLOCH.

1. **Presennol** – Gwyndaf Roberts (cad), Hefina Roberts, Christine Hughes – Llanllyfni, Harry Owen, Gareth Jones, Peter Bridges, Siân Dafydd – Talysarn, Dafydd Thomas – Nebo, Barry Bracegirdle, Erfyl Williams, Judith Humphreys, Dylan Herbert, Ceri Owen – Penygroes, Cyng. Peter Thomas.

Ymddiheuriadau – Justin Davies, Penygroes a Ffion Jones, Nantlle, Cyng. Dafydd Davies.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod ac estynnwyd cydymdeimlad gyda Cyng. Dafydd Davies ar ei brofedigaeth o golli ei dad.

2. **Datgan Buddiant** - Peter Bridges yn datgan diddordeb ym mhwynt 11 Ystafelloedd newid CPD Talysarn Celts.

3. **Gwadd** - Croesawyd Gwenllian Spink o'r Orsaf i'r cyfarfod a gofynnwyd iddi esbonio y cais oedd ganddynt i'r Cyngor Cymuned. Esboniodd bod yr Orsaf yn cyfarfod yfory gydag aelod o UnLlais Cymru i drafod cais am grant er mwyn gwneud rhandiroedd ar dir Cwtîn, ond gan mai'r Cyngor Cymuned sydd berchen ar y darn tir hwn yna eisiau gofyn a fuasai posib cael prydles ar y tire r mwyn cario allan y prosiect dan sylw. Rhoddwyd gwahoddiad i unrhyw un o'r cyngor fynd i'r cyfarfod fory a adroddwyd bod Justin Davies yn fodlon mynd - cytunodd pawb gyda hyn. Esboniodd Gwyndaf nad oedd posib rhoi caniatâd am brydles ar hyn o bryd gan fod yna faterion cyfreithiol yn mynd ymlaen gyda'r Cwtîn ar hyn o bryd. Cynigiodd Dafydd Thomas y dylid gofyn am adroddiad yn dilyn y cyfarfod yfory.

4. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 11 Hydref 2022** - cynigiodd Barry bod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan Hefina. Cytunodd pawb.

5. **Materion yn codi o'r cofnodion** - llwybr rhif 5 - Idris Lloyd am fynd i edrych ar hwn ac adrodd yn nôl i'r clerc. Trystan Bevan wedi derbyn neges y clerc am y malurio sydd yn mynd ymlaen yn y safle bws ac mae wedi pasio'r neges ymlaen i PC Non Edwards yn gofyn iddynt ymweld â siop Co-op i ofyn am weld eu CCTV nhw.

6. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn copi o adroddiad Cyng. Peter Thomas ymlaen llaw i'w darllen. Diolchwyd iddo am ei pharatoi ac nid oedd mater yn codi.

7. **Materion Pentrefi** - **Penygroes** - cwynion wedi eu derbyn am y tyllau yn y ffyrdd ac roedd Cyng. Craig ab Iago wedi gyrru e-bost am hyn hefyd. Trem Yr Wyddfa'r fynedfa i mewn i'r cul-de-sac mae rhan o'r tarmac wedi codi ac yn beryglus i rywun faglu a brifo arno. Gofynnwyd a oes posib cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r mater eu bod wedi symud y safle bws o ymyl Pecish yn islawr at y Co-op. Rhai trigolion heb ddallt bod y safle wedi symud ac na wnaiff y bws stopio ger yr hen safle bellach. Angen gofyn iddynt dynnu'r hen amserlen i lawr a rhoi arwydd yn dweud bod y safle wedi symud. **Talysarn** - gofynnodd Harry a oes posib gwneud ymholiadau a beth yw'r diweddaraf gyda'r Hwb Iechyd. Siân wedi derbyn cais gan y Gwasanaeth Prawf yn gofyn a oedd posib cael caniatâd iddynt drefnu mynd a grŵp o gyn-droseddwy'r parc sglefrio er mwyn torri gwair a thacluso ayyb. Nid oedd gan neb wrthwynebiad i hyn ond buasai yn rhaid iddynt gysylltu gyda Chyngor Gwynedd am y caniatâd swyddogol. Cwynion bod y biniau baw cŵn yn orlawn ac un ai eisiau gosod mwy ohonynt o gwmpas neu drefnu i ddod i'w gwagio yn amlach - dywedodd Cyng. Peter Thomas ei fod wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd am hyn. **Nebo** - gofyn a oes modd cael mwy o finiau baw cŵn o gwmpas Nebo (2 os yn bosib). Y Pwyllgor Ardal yn gofyn am ganiatâd i dacluso rhai o'r llwybrau nad ydynt yn category 1 a 2 - dim gwrthwynebiad i hyn. Adrodd hefyd bod y pwyllgor ardal wedi ennill y cais gan Cadw Cymru'n Daclus i gael planhigion, coed ayyb i roi ym Mharc Nebo. **Llanllyfni** - angen arwydd SATNAV wrth Efail Berth gan fod loriau yn troi lawr ac yn mynd yn sownd. Y clerc i gysylltu gyda'r adrannau / sefydliadau addas am y materion hyn.

8. **Cyfarfodydd is-bwyllgorau - Is-bwyllgor cyllid 18 Hydref** - gofynnwyd i Gareth pe bai yn fodlon mynd drwy bopeth a drafodwyd yn yr is-bwyllgor cyllid. Roedd cofnodion o'r cyfarfod wedi eu rhoi allan ymlaen llaw er mwyn i bawb edrych drostynt. Esboniodd Gareth mai prif ddiben symud pethau o gwmpas yn y gyllideb ydi er mwyn creu

cyllideb ar gyfer y gwaith sydd rhaid ei wneud yn yr ystafelloedd newid. Adroddodd hefyd hyd yn hyn bod yna fwy o arian wedi dod fewn ar gladdedigaethau na sydd wedi ei nodi ar y gyllideb. Cynigiodd Gareth os nad yw'r cynghorwyr am dderbyn y lwfans yna efallai yn syniad llenwi'r ffurflenni yn fuan er mwyn rhyddhau arian na fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hyn. Cytunodd pawb. Aeth Gareth drwy'r newidiadau a oedd wedi eu cynnig ar gyfer y gyllideb yn yr is-bwyllgor a chytunwyd i hyn fynd ymlaen.

9. **Taflen ariannol a chyllid** - hyn wedi ei drafod eisoes ym mhwynt 8.

10. **Llwybrau a Mynwentydd** - rhan o wâl wedi disgyn yn Macpela ac wedi derbyn 2 bris am ei thrwsio. 1. £1980+TAW=£2376.00. 2. £3460 (dim TAW). Esboniodd Nia ei bod wedi cysylltu gyda'r cwmni yswiriant am y wal ond yn anffodus nid yw yn cael ei gynnwys yn yr yswiriant. Trafodwyd y prisiau a chynigiodd Dafydd i fynd am bris rhif 1, eiliwyd a chytunwyd gyda hyn. Nia i gysylltu gyda Aaron Hughes iddo wneud y gwaith. Cynigiodd Dafydd y dylid defnyddio arian o golofn y Prosiect Ieuenctid ar gyfer talu am y wal gan nad oes dim wedi digwydd gyda'r prosiect felly arian ar gael yno. Barry yn anghytuno gyda hyn gan mai yn benodol i'r ieuenctid mae'r arian hwn. Holodd Gwyndaf beth oedd y diweddaraf gyda'r clwb ieuenctid a dywedodd Judith y buasai yn gwneud ymholiadau. Hefyd dywedwyd bod ADRA i'w gweld yn cyfrannu at brosiectau fel hyn - cytunodd Ceri i wneud ymholiadau am hyn. Cynigiodd Judith hefyd y dylai Nia gysylltu gyda Cyng. Craig ab Iago am hyn.

11. **Ystafelloedd Newid CPD Talysarn Celts** - gadawodd Peter Bridges y cyfarfod. Rhoddodd Gwyndaf ddiweddariad ar sefyllfa'r gwaith a dweud bod y drysau bellach wedi eu gosod, ond yn anffodus gyda'r gwaith trydan mae llawer iawn mwy o waith na'r disgwyl ar yr ystafelloedd. Esboniodd bod rhannau newydd wedi gorfod cael eu gosod a llawer mwy o oriau o waith wedi ei roi fewn na beth ddisgwylwyd. Gwyndaf wedi ymweld â'r ystafelloedd ac wedi siarad gyda chadeirydd y CPD ac wedi cytuno nad yw'r ystafelloedd i gael eu defnyddio hyd nes bydd y gwaith wedi ei gwblhau a'r dystysgrif drydanol wedi ei derbyn. Yn dilyn hyn bydd angen trefnu i gael y profion dŵr wedi eu cario allan. Wrth gwrs mae hyn yn meddwl bod yna fwy o gostau, ond rhaid gwneud y gwaith er mwyn medru rhoi'r adeilad nôl drosodd i Gyngor Gwynedd ac er mwyn i'r CPD gael y brydles. Teimlad rhan fwyaf o'r cynghorwyr ydi bod yn rhaid gwneud hyn.

12. **Ceisiadau Cynllunio** –

NP3/22/14D - Talymignedd Uchaf - Trosi a newid defnydd adeilad allanol yn uned gwyliau hunan arlwyyo tymor byr - **dim gwrthwynebiad**

C22/0585/22/LL - Tir ger Oxton Villa, Penygroes - codi tŷ fforddiadwy gyda mynedfa a pharcio - **dim gwrthwynebiad.**

13. **Chwarel Dorothea - Parc Anturiaethau** - trafodwyd bod e-bost wedi ei dderbyn bod cais cynllunio am gael ei roi er mwyn creu Parc Antur yn Chwarel Dorothea ac yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned. Trafodwyd a chytunwyd i ymateb yn dweud nad yw'r Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i roi sylw na barn ar y mater gan nad oes digon o wybodaeth ar y prosiect ar unig amser y bydd y Cyngor yn rhoi sylw yw pan fydd cais swyddogol yn dod i law drwy Gyngor Gwynedd.

14. **Ceisiadau Ariannol** – hysbyseb wedi ei baratoi i roi yn Lleu – cytunwyd i'w roi yn y rhifyn nesaf.

15. **Gohebiaeth** - GIG Cymru, Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys – Datblygu'r Gwasanaeth Briff y Cynnig – angen ysgrifennu at y Gwasanaeth Ambiwylans Awyr yn datgan pryder.

Comisiwn Ffiniau i Gymru – Cyhoeddi Cynigion Diwygiedig – dim yn codi.

16. **Materion Ariannol** - cytunwyd i dalu'r rhain

- Nia Jones - Ffôn a rhyngwyd - **£25.00**

- Ifan ac Idris – £3000+600TAW = **£3600.00**

- Sion Jones - drysau - **£3161.25**

- Torchau Sul y Cofio - **£40.00**